

Arolygiad Dilynol (Dirybudd)

Adran Achosion Brys Ysbyty Glan
Clwyd

Dyddiad arolygu: 5 Mehefin 2018

Dyddiad cyhoeddi: 5 Medi 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	28
4.	Beth nesaf?	33
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	34
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	35
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	36
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	37

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol, dirybudd o Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 5 Mehefin 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, un adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf o'r adran ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd glân a thaclus
- Rhyngweithio da gan y staff
- Darparu bwyd a hylifau
- Gweithio amlddisgyblaethol da
- Tîm rheoli hygyrch a gweladwy
- Prosesau archwilio da.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Amseroedd aros
- Dogfennu anghenion gofal ac asesiadau risg
- Storio meddyginiaethau
- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Agorwyd Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin 2014. Mae'n rhan

o ysbyty cyffredinol prysur ac mae'n trin nifer fawr o gleifion.

Mae'r fynedfa i ambiwlansys ar wahân i'r fynedfa cerdded i mewn. Caiff cleifion sydd wedi cerdded i mewn

eu brysbennu¹ ar ôl cyrraedd ac yna cânt eu gweld ym mha ardal glinigol

bynag sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Mae pedair ystafell driniaeth ar gael

wrth ymyl y dderbynfa lle y gall claf gael ei weld gan nyrs frysbennu,

Ymarferydd Nyrsio Brys neu feddyg.

Mae pedair cilfan dadebru (gan gynnwys un bediatrig), wyth cilfan a dwy

ystafell yn yr uned anafiadau mawr, a saith cilfan yn yr uned mân anafiadau. Roedd yr

uned mân anafiadau hefyd wedi neilltuo lle ar gyfer cleifion sydd wedi cerdded i mewn ac sy'n aros

am ragor o asesu neu driniaeth o bosibl. Mae ystafell aros bediatrig ar wahân

i blant ac mae tair ystafell driniaeth wedi'u dynodi'n ystafelloedd pediatrig, a ddefnyddir hefyd os bydd angen trin cleifion sy'n oedolion.

Mae nifer o unedau a gwasanaethau eraill yn rhan o'r Adran Achosion Brys.

¹ Mae brysbennu yn broses o benderfynu ar driniaethau cleifion yn seiliedig ar ddifrifoldeb eu cyflwr.

- Mae'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau wedi'i leoli wrth ymyl y dderbynfa. Mae meddyg teulu

wedi'i leoli'n barhaol yma.

- Roedd gan Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys ddeg cilfan

(ond staff ar gyfer wyth). Roedd wedi'i chynllunio i ddal cleifion yn ôl

meini prawf llym am gyfnod heb fod yn fwy na 24 awr

- Mae'r Uned Asesu Cyflym a'r Uned Feddygol Acíwt

wedi'u cydleoli ac maent yn cynnwys 24 o welyau ar gyfer yr Uned Feddygol Acíwt ac wyth gwely ar gyfer

yr Uned Asesu Cyflym. Mae'r Uned Asesu Cyflym yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu i'w hasesu

ac mae'r Uned Feddygol Acíwt yn derbyn cleifion o'r Uned Asesu Cyflym a'r Adran Achosion Brys i'w gweld

gan feddyg ymgynghorol.

- Mae Uned Asesu Llawfeddygol hefyd yn rhan o'r adran.

Arolygodd AGIC yr Adran Achosion Brys ddiwethaf ar 15 a 16 Tachwedd 2016.

Diben yr arolygiad hwn oedd cynnal arolygiad dilynol o'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ymwelwyd â'r brif Adran Achosion Brys, Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys, yr Uned Feddygol Acíwt a'r Uned Asesu Cyflym.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn cefnogi cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Gwelsom staff yn ymdrin â chleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd y tîm yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Fodd bynnag, mynegodd cleifion bryderon ynglŷn ag amseroedd aros.

Roedd amgylchedd yr adran achosion brys yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, roedd rhai o'r gorchuddion ar gadeiriau yn y brif ardal aros wedi rhwygo.

Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amgylchedd gofal a lefelau staffio yn ddigonol i sicrhau y rhoddir gofal urddasol.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau toiled ac ymolchi digonol i bobl sy'n defnyddio'r adran.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pobl (cleifion a pherthnasau) yn cael cymorth i gyfathrebu er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cynllun triniaeth yn glir ac yn cymryd rhan yn y broses o'i lunio.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pwyslais ar ofal unigol i bob claf.

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant a'u bod yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaeth i sicrhau cydraddoldeb, hawliau dynol a safonau Amddifadu o Ryddid.
- Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn casglu ac yn gwrando ar adborth cleifion a bod hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiadau mewn gofal. Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 23 Ionawr 2017:

- Craffu ar lefelau staffio unedau bob dydd gan y Nyrs â Chyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod staffio nyrsio diogel a theg ar waith ym mhob rhan o'r adran.
- Craffu bob mis ar yr E-restr ddyletswydd gymeradwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran gwylliau blynyddol, absenoldeb astudio, absenoldeb oherwydd salwch, cyfyngiadau ar weithio ac oriau a gollwyd/nas defnyddiwyd.
- Cynnal adolygiad o gymysgedd sgiliau a meincnodi'r cymysgedd sgiliau yn erbyn adnodd aciwtedd arfer gorau ar gyfer Adrannau Achosion Brys er mwyn sicrhau'r staff cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir.
- Rhoi gwasanaeth cadw tŷ 7 diwrnod ar waith er mwyn sicrhau y caiff amser nyrsio craidd ei ryddhau drwy gynnal lefelau stoc craidd a rhoi cymorth o ran Atal a Rheoli Heintio.
- Mae gwaith cynllunio a darparu cyfleusterau toiled ac ymolchi yn yr Adran Achosion Brys wedi cael ei ddylunio yn unol â HBN-22 (Cyfleusterau i Oedolion a Phlant).
- Nodwyd bod angen darparu cawod ychwanegol i gleifion ac fe'i hychwanegwyd at gynllun gwaith Ystadau i'w chwblhau.
- Adolygu'r holl ddogfennaeth derbyn a Rowndiau Bwriadol er mwyn nodi'r cyfle i atgyfnerthu trefniadau cyfathrebu effeithiol â chleifion a pherthnasau er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cynllun triniaeth yn glir ac yn cymryd rhan yn y broses o'i lunio - rhoi unrhyw argymhellion ar gyfer gwella i'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd.
- Bydd byrddau cyfathrebu yn cael eu gosod uwchben gwelyau cleifion sy'n nodi nyrs a meddyg y claf, dewis enw'r claf, gofynion deietegol y

claf, y ward lle y disgwylir i'r claf gael ei dderbyn, a/neu ddyddiad rhyddhau/trosglwyddo disgwyliedig.

- Caiff cydymffurfiaeth â'r ymgyrch "Helo, Fy Enw i yw..." ei monitro'n fisol gan archwiliadau Ansawdd a Diogelwch Metron a phob ymweliad â'r ardaloedd clinigol.
- Ffurfioli Safonau Cyfathrebu disgwyliedig i'r adran ac mewn cydweithrediad â defnyddwyr gwasanaethau, llunio canllaw i gleifion a pherthnasau o ran yr hyn y dylid ei ddisgwyl, a'r gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Achosion Brys.
- Darparu Pecyn Dysgu 10 Munud i bob aelod o staff er mwyn eu hatgoffa o ganfyddiadau'r arolygiad a'r meysydd lle mae angen gwella. I'w gyflwyno drwy sesiwn friffio diogelwch yr adran/ward sy'n cael ei chynnal deirgwaith y dydd.
- Gweithredu cynllun peilot cydweithredol â'r Groes Goch Brydeinig yn yr Adran Achosion Brys er mwyn darparu gwasanaeth cyfeillio a chynllun ysbyty yn y cartref.
- Sefydlu Grŵp Monitro Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio'r broses o gwblhau Cynllun Gwella AGIC a chyflwyno adroddiadau misol i'r canlynol:
 1. Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd
 2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol Gofal Eilaidd.
- Bydd pob aelod o staff yn cael ei atgoffa drwy'r sesiwn friffio ar ddiogelwch y dylai pob claf gael asesiad risg ac y dylid nodi amllder Rowndiau Bwriadol yn glir o fewn awr o gyrraedd.
- Dylid monitro drwy asesiadau sicrhau ansawdd bod yr asesiadau risg o gleifion wedi cael eu cynnal a bod amllder y Rowndiau Bwriadol wedi cael ei nodi'n glir a'i ddilyn er mwyn sicrhau y caiff anghenion gofal unigol eu nodi a'u diwallu.
- Caiff Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (o leiaf ddau) eu nodi ar gyfer yr adran.
- Bydd asesiad dadansoddi bwch o'r safonau presennol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol yn yr Adran Achosion Brys yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.

- Bydd Nyrs Datblygu Ymarfer yr Adran Achosion Brys yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaen er mwyn nodi staff meddygol a nyrsio y mae angen hyfforddiant safonau Amddifadu o Ryddid arnynt.
 1. Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd
 2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol Gofal Eilaidd.
- Cyflwyno system adborth cleifion 'amser real' ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd erbyn 1 Gorffennaf 2017 er mwyn cofnodi profiad cleifion.
- Cydgysylltu â thîm Profiad y Claf a gwahodd cynrychiolydd cleifion fel aelod craidd i gyfarfod Diogelwch a Llywodraethu'r Adran Achosion Brys er mwyn:
 1. Ymgorffori diwylliant o gyfranogiad cleifion
 2. Sicrhau y gall lleisiau cleifion gael eu clywed a bod eu safbwyntiau'n dylanwadu'n gadarnhaol ar y gwaith a wnawn.
- Hysbysu pob aelod o staff o ddyddiadau cyfarfodydd Diogelwch a Llywodraethu yn y dyfodol drwy hysbysfwrdd y staff, cyfrifon e-bost staff a'r cyfrif Twitter ac annog y staff i fynychu a rhannu'r gwersi i'w dysgu mewn perthynas â diogelwch cleifion a digwyddiadau profiad.
- Cyflwyno adroddiadau eithriad Diogelwch a Llywodraethu misol i Gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd.
- Ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol â chleifion a pherthnasau drwy arddangos adborth mewn modd cyhoeddus er mwyn dangos adran sy'n gwrando ac yn gweithredu. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:
 1. Cylchlythyr chwarterol yr Adran Achosion Brys a fydd ar gael ym mhob man cyhoeddus
 2. Blychau awgrymiadau i gleifion/perthnasau
 3. Byrddau gwybodaeth "Dywedoch chi, gwnaethon ni", a gaiff eu diweddarau bob mis.

Yr hyn a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad dilynol

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf o'r adran ynglŷn ag ansawdd profiad y claf ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Canfyddiadau ychwanegol

Cadw'n iach

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Soniodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y ffordd roedd y staff yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

Gofal urddasol

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Roedd yr amgylchedd yn yr adran yn lân ac yn daclus, gan ychwanegu at ymdeimlad cleifion o les. Fodd bynnag, roedd rhai o'r gorchuddion ar gadeiriau yn y brif ardal aros wedi rhwygo. Mae hyn nid yn unig yn ddi-raen ond mae hefyd yn cynyddu'r risg o groes-heintio gan na ellir glanhau'r cadeiriau'n hawdd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid atgyweirio'r cadeiriau sydd wedi rhwygo yn y brif ardal aros neu brynu rhai newydd yn eu lle.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ddwyieithog i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac roedd ar gael yn yr ardaloedd aros drwy'r adran gyfan. Roedd hysbysfyrddau wedi'u gosod mewn mannau amlwg yn yr adran er mwyn arddangos canlyniadau archwilio. Fodd bynnag, roedd rhai canlyniadau yn aros i gael eu cyfieithu i'r Gymraeg cyn eu harddangos.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â chleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol.

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn cymryd amser i esbonio pethau iddynt.

Gofal amserol

Roedd y tîm yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu.

Fodd bynnag, mynegodd cleifion bryderon ynglŷn â'r amseroedd aros.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros ac ystyried ffyrdd o wella llif cleifion drwy'r adran ymhellach.

Gofal unigol

Cynllunio gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal da ar y cyfan ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardal gwely/triniaeth pan oedd gofal yn cael ei roi.

Gwelsom fod asesiad o Alluedd Meddyliol ac asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid² yn cael eu cynnal ar gleifion a oedd wedi cael diagnosis o anghenion iechyd meddwl. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau o'r fath yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion a oedd â chyflyrau eraill, megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o Alluedd Meddyliol yn cael eu cynnal ar gleifion sy'n amlygu symptomau cyflyrau megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol.

Gwrando a dysgu o'r adborth

Cafodd cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff. Hefyd, roedd sgrin electronig adborth cleifion 'amser real' wedi'u lleoli yn y brif ardal aros. Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu bob mis ac roedd adroddiad yn cael ei lunio gan fetron yr adran. Rhoddwyd copi o adroddiad y fetron ar gyfer Mai 2018 i ni. Amrywiol fu ymatebion y cleifion, a'r prif achos pryder oedd amseroedd aros.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel.

² Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella³.

³Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio yn yr adran er mwyn monitro cyflwr cleifion a helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd yr adran yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen mynd i'r afael ag agweddau ar reoli meddyginiaethau.

Gwelsom fod angen gwella'r broses o asesu ac adolygu cleifion.

Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael ei asesu o ran ei risg o ddatblygu niwed man pwyso a bod gofal ac ymyriadau priodol ac amserol yn digwydd.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael ei asesu'n briodol o ran y risg o syrthio a chymryd camau yn ôl yr angen.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cadw at God Ymarfer Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amseroedd prydau bwyd yn yr Adran Achosion Brys, yn enwedig yn Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys yn cael eu cydgysylltu a bod cleifion yn cael prydau bwyd a chymorth i fwyta, yn ôl yr angen, mewn modd amserol.

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisïau cenedlaethol a pholisïau'r bwrdd iechyd ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau yn cael eu cymhwyso'n ymarferol bob amser.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i gefnogi datblygiad y tîm staff sydd wedi cael hyfforddiant pediatriig arbenigol ac ychwanegu at y tîm hwnnw.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael yr hawl i ofal er mwyn diwallu eu hanghenion unigol a bod hyn wedi'i ddogfennu'n briodol. Mae'r meysydd penodol a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad yn cynnwys: Yr angen i sicrhau prosesau effeithiol o fonitro a chofnodi cydbwysedd hylif, monitro a chofnodi glwcos yn y gwaed yn effeithiol mewn cleifion sydd â diabetes, a dull cadarnhaol a diogel o adnabod pob claf sy'n derbyn gofal a meddyginiaeth.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Asesiad Unedig (wedi'i addasu) yr Adran Achosion Brys i'w roi ar waith ym mhob un o Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd.
- Bydd pob claf sy'n dod i'r adran yn cael:
 - 1) Asesiad lefel uchel cychwynnol o angen o fewn awr o gyrraedd sy'n nodi amllder Rowndiau Bwriadol yn glir
 - 2) Yr Asesiad Unedig wedi'i addasu o angen o fewn 4 awr o gyrraedd
 - 3) Asesiad unigol llawn o angen o fewn 12 awr o gyrraedd.
- Bydd Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol yn cynnal Rowndiau adolygu Ansawdd gan gymheiriaid ym mhob un o Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd.
- Bydd Metronau yn cynnal archwiliad adolygu gan gymheiriaid o asesiadau o fannau pwyso a gweithredu Llwybr Mannau Pwyso Integredig Cymru Gyfan.

- Sefydllu Gweithdrefn Safonol er mwyn sicrhau bod staff yn cael mynediad amserol at offer lleddfu pwysau priodol 24 awr y dydd.
- Bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol yn cael ei gynnal gan Nyrs Datblygu Ymarfer yr Adran Achosion Brys er mwyn nodi'r staff y mae angen hyfforddiant ar gwympiadau arnynt.
- Caiff hyfforddiant ar gwympiadau ei roi i bob aelod o staff a nodwyd drwy'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol. Caiff adroddiad ar gynnydd hyfforddiant ei gyflwyno bob mis i'r canlynol:

1. Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd

2. Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol Gofal Eilaidd.

- Bydd pob claf sy'n dod i'r adran yn cael:

1. Asesiad lefel uchel cychwynnol o angen o fewn awr o gyrraedd, sy'n nodi amllder Rowndiau Bwriadol yn glir.

2. Yr Asesiad Unedig wedi'i addasu o angen o fewn 4 awr o gyrraedd

3. Asesiad unigol llawn o angen o fewn 12 awr i gyrraedd.

Bydd Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol yn cynnal Rowndiau adolygu Ansawdd gan gymheiriaid ym mhob un o Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd.

- Bydd metronau yn cynnal archwiliad adolygu gan gymheiriaid o asesiadau risg o gwympiadau a'r ffordd y gweithredir y Llwybr Cwmpadau.
- Lansio Polisi wedi'i ddiweddarau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gwympiadau ym mis Tachwedd 2016.
- Lansio Llwybr Cwmpadau wedi'i ddiweddarau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Rhagfyr 2016 a fydd yn manylu ar asesu pob claf ac ymyriadau.
- Caiff cynllun lleol ar gyfer gwella atal heintiau ei roi ar waith a'i fonitro drwy grŵp atal heintiau lleol.
- Cydymffurfiaeth â'r 10 Safon Allweddol yn weladwy i'r cyhoedd ac wrth ymyl mynedfa pob ward/ardal glinigol.

- Caiff adroddiad eithriad Atal Heintiau Ysbyty chwarterol Glan Clwyd ei gyflwyno i Grŵp Atal Heintiau Strategol y Bwrdd Iechyd, gan nodi meysydd o arfer da a meysydd lle mae angen gwelliant.
- Caiff ymarfer cerdded atal heintiau wythnos ei gynnal a chaiff unrhyw faterion y mae angen ymdrin â nhw ar unwaith eu hamlygu a'u gweithredu.
- Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn cynnal archwiliadau dyddiol o gomodau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau Atal Heintiau.
- Caiff grŵp gorchwyl a gorffen ar faeth ei sefydlu er mwyn pennu safonau a fydd yn cynnwys:

1. Disgwyl i bob aelod o'r staff nyrsio gynorthwyo yn ystod prydau bwyd cleifion

2. Caiff aelod dynodedig o staff ei nodi bob dydd, wedi'i ddirprwyo gan y Nyrs â Chyfrifoldeb, i oruchwylio bod prydau bwyd yn cael eu dosbarthu'n amserol.

3. Caiff pob claf y mae angen cymorth arno ei nodi ar adeg trosglwyddo a chaiff cymorth ei gynnig.

4. Dull effeithiol o gasglu prydau bwyd gan berthnasau cleifion lle y bo hynny'n briodol.

- Bydd yr Adran Achosion Brys yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant sylfaenol.
- Bydd y Nyrs Datblygu Ymarfer yn nodi staff y mae angen hyfforddiant rheoli meddyginiaethau arnynt mewn perthynas â'r Ail Wiriwr.
- Caiff hyfforddiant Ail Wiriwr achrededig ei gyflwyno i'r staff a nodwyd drwy'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant er mwyn sicrhau bod polisïau lleol a chenedlaethol yn cael eu cymhwyso'n gyson mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.
- Bydd Hysbysiad Stop yn cael ei gyhoeddi a'i roi ar waith o fis Tachwedd 2016 er mwyn sicrhau na fydd unrhyw Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn ail wirio meddyginiaethau tra bydd y Cod Meddyginiaethau yn cael ei adolygu.

- Hapwiriadau dirybudd wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn i'w cynnal am 4 wythnos ar ôl yr Hysbysiad Stop (Tachwedd/Rhagfyr 2016).
- Bydd pob aelod o'r staff nyrsio yn cael copi o God Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (MM02.1). Cafodd hwn ei anfon drwy e-bost gyda derbynebau darllen.
- Caiff drafft diwygiedig Cod Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd (MM02.1) ei gyflwyno i'r cyfarfod Polisi a Gweithdrefn ym mis Ionawr. Bydd y cod diwygiedig yn nodi'r safonau canlynol yn benodol:
 1. Yr amgylchiadau eithriadol lle y gallai Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd weithredu fel ail wiriwr ar gyfer cyffuriau a reolir.
 2. Yr hyfforddiant, yr awdurdodiad a'r rheolaeth sydd eu hangen os caniateir i Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd ail wirio mewn meysydd penodol.
- Mae gan adran hyrwyddwr dros Ddiogelu Plant a Hawliau Plant a nodwyd.
- Gweithredu model Goruchwyllo Clinigol o ran Diogelu Plant.
- Bydd rheolau E-restr ddyletswydd yn sicrhau bod aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant APLS/PILS ar bob sifft ac y caiff ei nodi'n glir ar ddechrau pob sifft gan arweinydd y sifft.
- Bydd Asesiad Unedig (wedi'i addasu) yr Adran Achosion Brys yn cael ei weithredu ym mhob un o Adran Achosion Brys y Bwrdd Iechyd.
- Bydd pob claf sy'n dod i'r adran yn cael:
 1. Asesiad lefel uchel cychwynnol o angen o fewn awr o gyrraedd, sy'n nodi amllder Rowndiau Bwriadol yn glir.
 2. Yr Asesiad Unedig wedi'i addasu o angen o fewn 4 awr o gyrraedd
 3. Asesiad unigol llawn o angen o fewn 12 awr i gyrraedd
- Caiff safonau adnabod cadarnhaol diogel eu cynnwys ar bob lefel asesu.
- Bydd Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol yn cynnal adolygiad gan gymheiriaid o Rowndiau Ansawdd ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ac

yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol Gofal Eilaidd.

- Bydd metronau yn cynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid a fydd yn cynnwys monitro cydbwysedd hylif yn effeithiol, glwcos yn y gwaed mewn cleifion sydd â diabetes ac adnabod pob claf sy'n derbyn gofal a meddyginiaeth yn ddiogel ac yn cyflwyno adroddiad bob mis i Gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Glan Clwyd.

Yr hyn a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad dilynol

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf o'r adran ynglŷn â rhoi gofal diogel ac effeithiol ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Canfyddiadau ychwanegol

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd archwiliadau amgylcheddol cyffredinol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion a staff. Roedd adroddiadau ffurfiol ar y rhain yn cael eu cyflwyno i uwch-reolwyr. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r archwiliad mwyaf diweddar yn cael eu harddangos yn yr adran er mwyn i gleifion eu gweld am eu bod yn aros i gael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwelsom fod biniau offer miniog gorllawn yn cael eu storio ar y llawr yn y coridor yn ardal mân anafiadau'r adran. Roedd y rhain yn cyflwyno risg i gleifion a staff.

Roedd Polisi Uwchgyfeirio ar waith i reoli llif cleifion drwy'r adran a rheoli cleifion a oedd yn cael eu trin ar drolïau mewn coridorau. Gwelsom fod goruchwyliaeth dda ar y cyfan o'r cleifion a oedd yn cael eu trin ar drolïau mewn coridorau, gyda nyrs gofrestredig, ar bob sifft, yn cael ei dynodi i ofalu am gleifion yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, roedd ychydig o amryfusedd ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am oruchwyllo cleifion a oedd yn aros i weld yr Ymarferydd Nyrsio Brys.

Gwelsom fod cyfathrebu da â chriwiau ambiwlans a goruchwyliaeth dda o gleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys. Roedd pwyslais ar symud cleifion oddi ar ambiwlansys i mewn i'r adran mor fuan â phosibl er mwyn rhyddhau'r cerbydau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw biniau offer miniog yn mynd yn orlawn ac nad ydynt yn cael eu storio ar y llawr.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwy sy'n gyfrifol am oruchwyllo cleifion sy'n aros i weld yr Ymarferydd Nyrsio Brys.

Atal manau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion o ran eu risg o niwed pwyso i'r croen yn yr Uned Feddygol Acíwt ac Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys ond ni welsom fawr ddim tystiolaeth bod asesiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn yr ardal mân anafiadau na'r ardal anafiadau mawr. Tynnwyd sylw at hyn fel problem yn ystod yr arolygiad diwethaf. Tynnwyd sylw'r fetron at hyn a gwelsom ychydig o welliant o ran asesiadau risg tua diwedd ein hymweliad.

Cadarnhawyd gennym fod y staff yn cymryd camau priodol i atal cleifion rhag cael niwed pwyso a niwed i feinweoedd drwy ddarparu offer lleddfu pwysau a newid eu hosgo'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg o fannau pwyso yn cael eu cwblhau'n gyson ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys a bod asesiadau o'r fath yn cael eu dogfennu'n gywir a'u hadolygu.

Atal cwympiadau

O archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, ni welsom fawr ddim tystiolaeth i ddangos bod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn amserol er mwyn lleihau'r risg o gwympiadau. Lle roedd asesiadau risg o'r fath wedi cael eu cwblhau, nid oeddent wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Tynnwyd sylw at hyn fel problem yn ystod yr arolygiad diwethaf. Tynnwyd sylw'r fetron at hyn a gwelsom ychydig o welliant mewn asesiadau risg tua diwedd ein hymweliad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg o gwympiadau yn cael eu cwblhau'n gyson ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys a bod asesiadau o'r fath yn cael eu dogfennu'n gywir a'u hadolygu.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, roedd hysbysfyrddau wedi cael eu darparu'n ddiweddar er mwyn arddangos canlyniadau archwiliadau rheoli heintiau mewn mannau amlwg yn yr adran.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menyg a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi cael eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom aelod o staff yn mynd i mewn i ystafell lle roedd claf yn cael gofal nyrsio ataliol⁴ heb ddilyn y weithdrefn gywir na gwisgo'r cyfarpar diogelu a oedd wedi'u darparu y tu allan i'r ystafell. Tynnwyd sylw'r fetron at hyn a chytunodd i atgoffa'r staff fod angen iddynt ddilyn y weithdrefn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau, yn enwedig lle mae cleifion yn cael gofal nyrsio ataliol.

Maeth a hydradu

⁴ Dull o roi gofal i glaf ac atal clefydau hynod drosglwyddadwy rhag cael eu trosglwyddo yw nyrsio ataliol. Gwneir hyn am ddau reswm: gellir cadw claf ar wahân er mwyn atal clefydau rhag lledaenu i eraill, neu gadw claf ar wahân er mwyn diogelu claf sydd â system imiwnedd wan.

Gwelsom anghenion bwyta ac yfed cleifion yn cael eu hasesu. Gwelsom y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol a digynnwrf. Hefyd, gwelsom y staff yn annog cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Roedd cleifion yn gallu cael gafael ar rywbeth i'w yfed ac roedd jygiau o ddŵr ar gael wrth y gwely yn Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys, yr Uned Feddygol Acíwt a'r Uned Asesu Cyflym ac roedd peiriannau dŵr oer wedi'u lleoli yn yr adran. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal, gwelsom nad oedd siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle roedd angen gwneud hynny, er mwyn nodi bod hylifau wedi cael eu darparu i gleifion. Tynnwyd sylw at hyn fel problem yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Roedd y prydau bwyd wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac roeddent yn archwaethus. Dywedodd cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau siartiau cymeriant ac allbwn hylifau yn gyson drwy'r adran gyfan.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd ddifrys, gan gymryd yr amser i sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu na mynd yn ofidus. Fodd bynnag, gwelsom bedwar claf yn Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys ac eraill yn yr ardal anafiadau mawr heb strapiau arddwrn. Tynnwyd sylw'r fetron at hyn a chymerodd gamau ar unwaith i unioni'r broblem. Tynnwyd sylw at y broblem hon yn ystod yr arolygiad diwethaf o'r adran ac arweiniodd at anfon llythyr gwella ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Mae'n achos pryder bod angen tynnu sylw at yr un broblem yn ystod yr arolygiad hwn er gwaethaf y mesurau a roddwyd ar waith gan y bwrdd iechyd i fonitro'r defnydd cywir o strapiau arddwrn adnabod cleifion.

Cadarnhawyd gennym nad oedd cynorthwyyr gofal iechyd yn ymwneud â'r broses o wirio meddyginiaethau a reolir mwyach a bod y dasg hon bellach yn cael ei gwneud gan ddwy nyrs gymwysedig.

Gwelsom fod eitemau o eiddo cleifion wedi cael eu storio yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir yn yr ardal anafiadau mawr. Tynnwyd sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn a symudwyd yr eitemau ar unwaith.

Gwelsom ddyfais chwistrellu, a oedd yn aros i gael ei hatgyweirio, mewn ystafell driniaeth, gyda photasiwm clorid yn dal i fod wedi'i gysylltu â'r offer rhoi⁵.

Nodwyd gennym fod yr ystafelloedd storio meddyginiaethau yn yr ardal mân anafiadau a'r ardal anafiadau mawr yn teimlo'n gynnes iawn. Nid oedd modd cadarnhau'r union dymereddau yn yr ardaloedd hyn am nad oedd darlleniadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd drysau i mewn i'r ardaloedd hyn yn cael eu cadw ar agor er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r defnydd o strapiau arddwrn adnabod cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na chaiff cypyrddau cyffuriau a reolir eu defnyddio i storio eitemau o eiddo cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar sy'n aros i gael ei atgyweirio ei storio'n ddiogel.

Dylai'r bwrdd iechyd fonitro'r tymheredd yn yr ystafelloedd storio meddyginiaethau yn yr ardal mân anafiadau a'r ardal anafiadau mawr bob dydd a chymryd camau i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac ar dymereddau derbyniol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael ar y ward ac roedd yr offer yn cael eu cynnal a chadw'n briodol ac roedd cyfarpar cludadwy yn cael eu profi yn ôl y gofyn.

⁵ Fel arfer, mae offer rhoi yn cynnwys bag a thiwb a ddefnyddir i roi hylifau a meddyginiaeth drwy'r croen i glaf.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi staff wrth eu gwaith.

Technoleg llywodraethu gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwbodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion a chadw cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod rhai aelodau o staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig i'w defnyddio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o nodiadau gofal cleifion a gwelsom eu bod wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan a'u bod yn gymharol hawdd eu deall. Fodd bynnag, roedd nodiadau cynnydd yn Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys yn fyr, heb fanylion. Roedd y nodiadau cynnydd yn cael eu cwblhau gan y staff ar wahanol adegau yn ystod eu sifft yn hytrach nag mor fuan ag y bo'n ymarferol ar ôl rhoi gofal neu ymyrryd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw nodiadau cynnydd manwl a bod y rhain yn cael eu cwblhau mor fuan ag y bo'n ymarferol ar ôl rhoi gofal neu ymyrryd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Yn gyffredinol, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr adran, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr yr adran.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymdrin â phob pryder a chwyn yn ddi-oed a gweithredu canllawiau Gweithio i Wella Cymru Gyfan yn effeithiol.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau staffio Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn yr ardal hon yn cael eu diwallu bob amser.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Bu ffocws ar leihau nifer y cwynion sydd ar agor am fwy na chwe mis, gyda'r bwriad o sicrhau na fydd unrhyw achosion ar agor am fwy na chwe mis (oni bai bod hynny y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd).

- Y sefyllfa yn y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016 oedd bod cyfanswm o 24 o gwynion wedi bod ar agor am fwy na chwe mis, yr oedd pob un ohonynt naill ai y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd neu fod bwriad i gau ym mis Ionawr 2017.
- Nid oedd gan wasanaeth Iechyd Meddwl Anawsterau Dysgu nac unrhyw isadran Ardal unrhyw achosion dros chwe mis.
- Bydd dim goddefgarwch i gwynion sydd wedi bod ar agor am fwy na chwe mis yn y dyfodol.
- Mae ffocws o hyd ar yr achosion hynny sydd wedi bod yn aros am fwy na thri mis er mwyn rhoi cyfle i atal cwynion (oni bai eu bod y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd) rhag bod ar agor ar ôl chwe mis.
- Mae'r Tîm Pryderon Corfforaethol yn cysylltu'n uniongyrchol ag achwynwyr lle y bo modd ac yn cytuno ar y materion y mae angen ymchwilio ac ymateb iddynt ac yn cynnwys y rhain yn y llythyr cydnabod.
- Mae'r broses hon yn cael ei hadolygu a'i diwygio ym mis Ionawr a chaiff ei hail-lansio. Caiff rhaglen dadansoddi anghenion hyfforddiant a rhoi hyfforddiant ei datblygu i helpu i roi hyn a'r broses Gweithio i Wella ar waith.
- Bydd hyfforddiant un i un ar gael i aelodau o staff sy'n newydd i'r broses o ymchwilio i bryderon.
- Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Rheolwyr Ward Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cenhedlaeth 2015, bellach yn cynnwys sesiwn diwrnod llawn ar ymdrin â phryderon er mwyn gwella amseroldeb ymchwiliadau a dysgu o brofiad cleifion. Mae Rheoli Pryderon yn rhan o raglen gynefino'r Bwrdd Iechyd i ddechreuwyd newydd.
- Mae'r isadrannau yn adolygu ac yn diwygio eu strwythurau llywodraethu er mwyn gwella amseroldeb ymchwiliadau i bryderon.
- Bydd y mesurau a ddisgrifir uchod yn berthnasol i reoli digwyddiadau hefyd. At hynny, bu adnoddau ychwanegol (Tach-Ion 17) yn y tîm pryderon corfforaethol i gefnogi'r ffocws ar gau digwyddiadau roedd angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt ac nad ydynt wedi cael eu cau ar amser.
- Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn agored bob mis i'r gwasanaethau a'r adrannau er mwyn eu helpu i reoli perfformiad.

- Mae DPAau lleol ar waith i'r Timau Pryderon Corfforaethol ar waith a chânt eu monitro'n fisol.
- Mae hierarchaethau Datix yn cael eu diwygio a'u diweddarau er mwyn cael dyrannu digwyddiadau'n ddi-oed. Caiff y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cleifion ei roi ar waith (Gwanwyn 17) yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn craffu ar lefelau staffio uned bob dydd er mwyn sicrhau bod staffio nyrs diogel a theg ar waith ym mhob rhan o'r adran.
- Craffu bob mis ar yr E-restr ddyletswydd gymeradwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran gwylliau blynyddol, absenoldeb astudio, absenoldeb oherwydd salwch, cyfyngiadau ar weithio ac oriau a gollwyd/nas defnyddiwyd.
- Cynnal adolygiad o gymysgedd sgiliau a meincnodi'r cymysgedd sgiliau yn erbyn adnodd aciwtedd arfer gorau ar gyfer Adrannau Achosion Brys er mwyn sicrhau'r staff cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir.
- Gweithredu gwasanaeth cadw tŷ 7 diwrnod er mwyn sicrhau y caiff amser nyrsio craidd ei ryddhau drwy gynnal lefelau stoc craidd a rhoi cymorth o ran Atal a Rheoli Heintio.

Yr hyn a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad dilynol

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf o'r adran ynglŷn â rhoi gofal diogel ac effeithiol ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adran hon.

Canfyddiadau ychwanegol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau

allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd staff allweddol o'r adran ac uwch-reolwr yr ysbyty yn cyfarfod bob dwy awr i drafod y sefyllfa bresennol yn yr adran gyda'r nod o unioni unrhyw broblemau a oedd yn datblygu cyn iddynt waethygu. Nododd y staff fod y broses hon yn effeithiol o ran rheoli'r pwysau ar yr adran a'r llif cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith yn yr adran.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Gwelsom staff cyfeillgar, proffesiynol drwy'r adran gyfan a ddangosai ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Gwelwyd copïau o rota'r staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da ymhlith y staff ar ddyletswydd ar bob sifft yn y rhannau gwahanol o'r adran. Roedd rotâu yn cael eu paratoi gan roi ystyriaeth i nifer y staff a oedd eu hangen a'u profiad a'u cymhwysedd. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y staff yn gallu cael y seibiannau roedd ganddynt hawl iddynt.

Dywedwyd wrthym fod nifer o staff profiadol wedi gadael yn ddiweddar, gyda'r rhan fwyaf yn symud i ardaloedd eraill yn y bwrdd iechyd. Roedd hyn wedi arwain at gyflogi nifer o aelodau newydd o staff, nad oedd gan rai ohonynt fawr ddim profiad o weithio mewn adran achosion brys. Roedd hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y staff profiadol a oedd yn weddill. Roedd dibyniaeth hefyd ar staff asiantaeth i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag nyrsio a meddygol.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio a meddygol. Fodd bynnag, erys recriwtio yn her o hyd yng nghyd-destun prinder nyrsys/meddygon.

Roedd rhaglen datblygu'r adran achosion brys ar waith, a oedd â'r nod o ddarparu datblygiad ymarfer a phroffesiynol parhaus i'r staff nyrsio er mwyn gwella sgiliau hanfodol, galluoedd arwain a rheoli a meithrin llesiant a gwydnwch. Roedd datblygiad gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael ei hwyluso drwy Raglen Sgiliau i Ofalu'r Adran Achosion Brys sydd wedi cael ei chynllunio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i roi gofal diogel a thosturiol o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant wedi cael ei gynnal ac roedd rhestr o ofynion datblygiad ymarfer a phroffesiynol craidd ac ychwanegol wedi cael ei llunio ar gyfer staff yr adran.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant gorfodol. Dangosodd hon fod 47% o'r staff nyrsio wedi cael hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, roedd 77% wedi cael hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, roedd 33% wedi cael hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau, roedd 33% wedi cael hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth, roedd 67% wedi cael hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 2, roedd 65% wedi cael hyfforddiant Diogelu Oedolion ac roedd 16% wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol. Dangoswyd bod 73% o staff Cymorth Gofal Iechyd wedi cael hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, 100% wedi cael hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol, 60% wedi cael hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau, 53% wedi cael hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth, 100% wedi cael hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 2 a 60% wedi cael hyfforddiant Diogelu Oedolion. Ni chawsom ddadansoddiad cyffelyb ar gyfer y staff meddygol ond dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol tua 44%.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r ardaloedd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir rhagor o fanylion am [y ffordd mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom bedwar claf yn Uned Arsylwi'r Adran Achosion Brys ac eraill yn yr ardal anafiadau mawr heb strapiau arddwrn adnabod.	Roedd hyn yn achosi risg o niwed i'r cleifion, yn enwedig o ran rhoi meddyginiaeth gan na allai'r staff adnabod cleifion yn briodol yn unol â chanllawiau arfer da a pholisi rhoi meddyginiaethau'r bwrdd iechyd.	Tynnwyd sylw'r fetron at hyn.	Darparwyd strapiau arddwrn adnabod ar gyfer pob claf yr oedd angen un arnynt.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad arolygu: 5 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad arolygu: 5 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid atgyweirio'r cadeiriau sydd wedi rhwygo yn y brif ardal aros neu brynu rhai newydd yn eu lle.	4.1 Gofal Gydag Urddas	Mae cadeiriau newydd wedi cael eu prynu yn lle'r rhai oedd wedi rhwygo yn ardal aros yr Adran Achosion Brys. Cadarnhaodd y Pennaeth Nyrsio pan gerddodd o gwmpas ar 14 Awst 2018 fod y cam hwn wedi'i gymryd. Caiff cadeiriau'r ystafell aros eu monitro fel rhan o wiriadau dyddiol ar yr amgylchedd a gynhelir gan swyddog cadw tŷ, a'r arfer safonol fydd bod cadair newydd yn cael ei rhoi yn lle pob un sydd wedi'i difrodi ar unwaith.	Metron yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros ac ystyried ffyrdd o wella llif cleifion drwy'r adran ymhellach.	5.1 Mynediad amserol	Ymhlith y camau gweithredu i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn gwella llif cleifion drwy'r adran mae: - Cyflwyno Gwasanaeth Ffrydio ffurfiol cyn Brysbennu. Caiff cleifion eu gweld yn gyflymach ar lwybrau neu wasanaethau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys atgyfeirio'n uniongyrchol at arbenigeddau, ailgyfeirio at Unedau Mân Anafiadau lleol ac adnoddau sylfaenol a chymunedol eraill. - Mae ad-drefnu llif a dyraniad staff yn yr Adran Achosion Brys wedi sicrhau Gwasanaeth Llwybr Carlam Mân Anafiadau / Mân Salwch pwrpasol. O ganlyniad i hyn, gall cleifion gael gafael ar ein gwasanaeth Ymarferydd Nyrsio Brys yn gyflymach saith diwrnod yr wythnos.	Rheolwr Cyffredinol y Cwadrant Achosion Brys Pennaeth Nyrsio'r Cwadrant Achosion Brys	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		- Cynyddu gallu ein hardaloedd Triniaeth Ddydd ac Addas i Eistedd yn yr adran er mwyn hwyluso'r broses o drin cleifion yn weithredol os nad oes angen troli arnynt yn glinigol. - Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i hyrwyddo'r defnydd o'r gallu clinigol yn yr unedau mân anafiadau lleol. Mae datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol wedi helpu'r broses o dderbyn cleifion yn uniongyrchol i unedau mân anafiadau lleol mewn ambiwlans er mwyn lleihau nifer y cleifion a gaiff eu cludo i'r brif Adran Achosion Brys. - Datblygu'r gwasanaeth Defnyddwyr Mynych Gwasanaethau (FSU), gyda llwybrau ffurfiol y tîm amlddisgyblaethol a gefnogir gan seicolegwyr clinigol wedi'u neilltuo er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n mynd at y gwasanaeth FSU		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ac yn cael eu derbyn iddo. - Cynyddu gweithlu ein Hadrn Achosion Brys i wyth Meddyg Ymgynghorol/Arbenigwr Cyswllt llawn amser ac ymestyn eu horiau gwaith tan 22.00. - Nodwyd adnoddau ariannol er mwyn helpu i benodi Pennaeth Nyrsio'r Cwadrant Achosion Brys a Rheolwr Cyffredinol y Cwadrant Achosion Brys yn barhaol, yn ychwanegol at y strwythur rheoli presennol. Bydd y swyddi newydd yn canolbwyntio ar lwybrau cleifion a llif cleifion drwy'r Cwadrant Achosion Brys. - Mae dau Ffisiotherapydd Cwmpas Estynedig wedi cael eu recriwtio er mwyn rhoi cymorth i gleifion ag anafiadau cyhyrsgerberbydol, sy'n sicrhau y caiff mân anafiadau eu hasesu'n brydlon gyda chynllun		Diwedd mis Hydref 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		triniaeth arbenigol. • Caiff uned y Cwadrant Achosion Brys ei chefnogi gan dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Gweithwyr Cymdeithasol a Nyrs Ardal (y system Derbyn, Rhyddhau a Throsglwyddo) sy'n gweithio saith diwrnod yr wythnos yn rhoi cymorth i gleifion a theuluoedd gyda'r broses ryddhau. • Yn ogystal â'r uchod, rydym wrthi'n recriwtio staff meddygol iau ar gyfer yr Adran Achosion Brys ac Uwch Ymarferwyr Nyrsio i gefnogi rhannau allweddol o'r cyfnod 24 awr pan fydd mwy o alw. • Mae'r Adran Achosion Brys wedi cyflwyno Sgrymiau Diogelwch bob dwy awr er mwyn adolygu pob claf sy'n aros yn yr adran ar y pryd.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod	6.2 Hawliau pobl	Ar hyn o bryd, lefel cydymffurfiaeth yr	Metron yr Adran	31 Hydref

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
asesiadau o Alluedd Meddyliol yn cael eu cynnal ar gleifion sydd â symptomau cyflyrau megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol.		Asesiadau o Alluedd Meddyliol yn yr Adran Achosion Brys yw 75% ar gyfer lefelau 2 a 3 ac mae'r adran yn gweithio tuag at gydymffurfiaeth lawn yn y maes hwn. Edrychir eto ar ddogfennau'r Adran Achosion Brys er mwyn casglu'r manylion sydd eu hangen am dderbyn cleifion i'r adran.	Achosion Brys/Nyrs Datblygu Ymarfer Pennaeth Meddygaeth Nyrsio	2018
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw'r biniau cyfarpar miniog yn mynd yn orlawn ac nad ydynt yn cael eu storio ar y llawr.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae biniau cyfarpar miniog bellach wedi'u gosod ar y wal ym mhob ardal. Caiff y blychau mawr a ddefnyddir yn yr ardal ddadebru eu cadw mewn ffrâm symudol. Mae archwilio'r biniau cyfarpar miniog wedi cael ei ychwanegu at y rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y staff cadw tŷ. Bydd cydymffurfiaeth â rheolau diogelwch ar gyfer cyfarpar miniog yn cael ei monitro pan fydd y Fetron yn	Metron yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau Archwiliadau misol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cerdded o gwmpas yn fisol gan ddefnyddio ffurflen Gofal Diogel a Glân y Fetron ac adborth a roddir i'r tîm.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwy sy'n gyfrifol am oruchwyllo cleifion sy'n aros i weld yr Ymarferydd Nyrsio Brys.		Mae'r Adran Achosion Brys wedi cyflwyno Sgrymiau Diogelwch bob dwy awr er mwyn adolygu pob claf sy'n aros yn yr adran ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros i weld yr Ymarferwyr Nyrsio Brys. Yr hyn sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yw sefydlu Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn yr adran er mwyn sicrhau bod aelod o staff yn yr ardal aros bob amser, yn goruchwyllo hanfodion gofal i gleifion.	Metron yr Adran Achosion Brys	30 Medi 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg o fannau pwyso yn cael eu cwblhau'n gyson ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys a bod asesiadau o'r fath yn cael eu dogfennu'n gywir a'u hadolygu.	2.2 Atal briwiau pwysau a niwed i feinweoedd	Cynhelir archwiliadau misol yn yr adran ar ôl i adborth ar asesiadau risg o friwiau pwysau gael ei roi i'r tîm ar adeg yr archwiliad.	Metron yr Adran Achosion Brys	30 Medi 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod	2.3 Atal	Gweler cam gweithredu 2.2 a'r ddogfen	Metron yr Adran	Adolygiadau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
asesiadau risg o gwympiadau yn cael eu cwblhau'n gyson ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys a bod asesiadau o'r fath yn cael eu dogfennu'n gywir a'u hadolygu.	Cwympiadau	atodedig mewn perthynas â chydymffurfiaeth ym mis Gorffennaf uchod	Achosion Brys	misol yn parhau i gael eu cynnal
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau, yn enwedig lle mae cleifion yn cael gofal nyrsio ataliol.	2.4 Atal a Rheoli Heintio a Dadhalogi	Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod polisïau rheoli haint yn cael eu hailategu mewn perthynas â nyrsio ataliol a byddwn hefyd yn adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.	Metron yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Atal Haint	30 Medi 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau siartiau cymeriant a gwarediad hylifau yn gyson drwy'r adran gyfan.	2.5 Maethiad a Hydradiad	Mae'r adolygiad o staffio yn yr adran yn dal i fynd rhagddo er mwyn cytuno ar Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol. Bydd archwiliadau misol yn parhau i fonitro siartiau cymeriant a gwarediad hylifau a bydd adborth yn cael ei roi i'r tîm a thrafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a dealltwriaeth. Bydd y Nyrs Datblygu Ymarfer yn darparu hyfforddiant mewnol parhaus wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff, boed yn gofrestredig neu	Metron yr Adran Achosion Brys//Nyrs Datblygu Ymarfer	30 Medi 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		heb ei gofrestru, yn deall pwysigrwydd monitro cydbwysedd hylifau ac yn parhau i gadw cofnodion da.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i archwilio'r defnydd o strapiau arddwrn adnabod cleifion.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rhoddir strapiau arddwrn i bob claf sy'n cael ei dderbyn i mewn i'r adran. Cynhelir archwiliad o strapiau arddwrn bob mis ar ffurf hapwiriad yn yr Adran Achosion Brys. Canfu'r ddau archwiliad diwethaf ar gyfer mis Gorffennaf a mis Mehefin 2018 gydymffurfiaeth o 100%.	Metron yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na chaiff cypyrddau cyffuriau a reolir eu defnyddio i storio eitemau o eiddo cleifion		Ceir sêff ar gyfer storio pethau gwerthfawr yn yr adran ac mae pob aelod o staff wedi cael gwybod neu gael ei atgoffa am ei leoliad. Codwyd problem lle'r oedd meddyginiaethau'r cleifion eu hunain (y daethpwyd â nhw i'r ysbyty) yn cael eu storio yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir er mwyn eu cadw'n ddiogel. Mae Metron yr Adran Achosion Brys yn trafod â'r Fferyllfa ymarferoldeb loceri'r cleifion eu hunain uwchlaw pob man i drolïau.	Metron yr Adran Achosion Brys Metron yr Adran Achosion Brys/Arweinydd Diogelwch Cleifion y Fferyllfa	Wedi'i gwblhau Diwedd mis Medi 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar sy'n aros i gael ei atgyweirio ei storio'n ddiogel.		Mae swyddog cadw tŷ ar ddyletswydd yn yr adran dros gyfnod o saith diwrnod. Mae pob aelod o staff wedi cael ei atgoffa am bwysigrwydd archwilio pob darn o gyfarpar, rhoi gwybod am gyfarpar y mae angen ei atgyweirio, a sicrhau bod cyfarpar yn cael ei storio'n ddiogel. Bydd archwiliadau dyddiol ac adroddiadau arnynt yn parhau pan fydd y Fetron yn cerdded o gwmpas yn fisol, yn unol â chynllun 90 diwrnod Gofal Diogel a Glân.	Metron yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd fonitro'r tymheredd yn yr ystafelloedd storio meddyginiaethau yn yr ardal mân anafiadau a'r ardal anafiadau mawr bob dydd a chymryd camau i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac ar dymereddau derbyniol.		Caiff pob oergell yn yr ystafell mân anafiadau, anafiadau mawr a dadebru ei harchwilio'n ddyddiol. Cydymffurfiaeth o 100% yn yr hapwiriad ar 14 Awst 2018. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro'n fisol pan fydd y Fetron yn cerdded o gwmpas yn fisol, yn unol â chynllun 90 diwrnod Gofal Diogel a Glân.	Metron yr Adran Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadw nodiadau cynnydd manwl a bod y rhain	3.5 Cadw cofnodion	Mae pob aelod o staff wedi cael ei atgoffa drwy sesiynau briffio diogelwch a	Metron yr Adran Achosion	30 Medi 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl ar ôl rhoi gofal neu ymyrryd.		negeseuon e-bost am bwysigrwydd cadw cofnodion da. Bydd y Nyrs Datblygu Ymarfer yn dechrau cynnal archwiliadau misol mewn perthynas â safonau cadw cofnodion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Gofynnir i'r staff nyrsio gyflwyno enghreifftiau o gadw cofnodion da cyn eu harfarniadau.	Brys/Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.	7.1 Gweithlu	Mae pob aelod o staff wedi cael ei atgoffa am y gofynion hyfforddiant gorfodol Bydd pob aelod o staff yn cydymffurfio 100% â'r hyfforddiant gorfodol Bydd pob aelod o staff yn cael cynnig Amser sy'n Ddyledus/Goramser er mwyn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddilyn a'i gwblhau Caiff cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol ei monitro drwy arfarniadau ac	Metron yr Adran Achosion Brys	31 Hydref 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		adolygiadau cynnydd wythnosol		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Alison Griffiths**

Teitl swydd: **Cyfarwyddwr Nyrsio'r Safle, Ysbyty Glan Clwyd**

Dyddiad: **14 Awst 2018**